

***Pinchas* (Nomeri 25:10-30:1)**

Nathan Abrams

Fel yr ydw i wedi egluro o'r blaen, ar Shabbat (machlud haul nos Wener hyd at fachlud haul nos Sadwrn), yn y synagog, pan fyddwn ni'r Iddewon yn ymgynnull i gwrdd a gweddïo, rydym yn darllen cyfran wythnosol o'r *Torah* (pum llyfr cyntaf Moses).

Daw'r gyfran ('parashah' yn Hebraeg), a fydd yn cael ei darllen y Shabbat hwn *Bemidbar* (Hebraeg: 'Yn y Diffeithwch'), sy'n cael ei adnabod yn y Beibl Cymraeg fel Nomeri, sef pedwerydd llyfr y Beibl. Mae'n cynnwys penodau 25:10–30:1.

Gelwir y parashah yn '*Pinchas*'. Daw ei enw o'r enw neu'r ymadrodd arwyddocaol cyntaf yn y bennod sy'n agor gyda'r geiriau 'Siaradodd yr ARGLWYDD â Moses, gan ddweud, Pinchas.'

Mae *Bemidbar*, fel y mae ei enw yn awgrymu, yn cofio Plant Israel yn crwydro yn yr anialwch ar ôl eu rhyddhau o gaethwasiaeth yn yr Aifft ond ychydig cyn iddynt gyrraedd Gwlad yr Addewid.

Pam y gelwir y parashah yn '*Pinchas*'? Oherwydd ei fod yn offeiriad, yn fab Eleasar, mab Aaron (brawd Moses ac yn Archoffeiriad), a ddaeth â phla i ben yr oedd Duw wedi'i orfodi i gosbi Plant Israel am eu hymddygiad eilunaddolgar. Cofiwch fod yr Israeliaid yn y Beibl yn undduwiol ac nad oeddent yn goddef addoli Duwiau eraill nac eilunaddoli nac unrhyw ddefodau sy'n gysylltiedig â hwy. Oherwydd gweithredoedd Pinchas, daeth Duw â'r pla i ben a chaiff ei wobrwyo trwy gael enwi'r parashah ar ei ôl.

Mae sôn am bla yn debyg i'n hoes ni gan ein bod yn dal i ddilyn mesurau sydd wedi'u cynllunio i leihau effaith Covid-19. Er nad oes unrhyw awgrym y dylem gopïo gweithredoedd Pinchas i ddod â'n pla i ben, dylem fod yn wylidwrus o hyd i amddiffyn ein hunain ac eraill.